Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 77/2026

Dyddiad cyhoeddi: 25/08/2026

# Astudiaeth gwmpasu ar gyfer adolygiad o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael hefyd.

*This document is also available in English.*

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80853-055-5

Astudiaeth gwmpasu ar gyfer adolygiad o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg

Awduron: Bethan Collins, Cadi Siôn, Eleri Jones, Laura Bloomfield

Adroddiad Ymchwil Llawn: Collins, B., Siôn, C., Jones, E., Bloomfield, L. (2026). Astudiaeth gwmpasu ar gyfer adolygiad o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 77/2026.

Mae'r adroddiad hwn ar gael ar dudalennau Ystadegau ac Ymchwil gwefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a nodir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn a rennir gan Lywodraeth Cymru

Rhagor o wybodaeth:
Cangen Ymchwil Ysgolion
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 8099
E-bost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

# Cynnwys


Rhestr o dablau ....................................................................................................2

Geirfa ....................................................................................................3

1. Cyflwyniad ....................................................................................................4

2. Cefndir ....................................................................................................5

3. Dulliau ....................................................................................................7

4. Adolygiad o dystiolaeth ....................................................................................................8

5. Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid ....................................................................................................16

6. Casgliadau ....................................................................................................23

7. Argymhellion ....................................................................................................24

# Rhestr o dablau

Tabl 1: nifer yr awdurdodau lleol a gododd faterion penodol yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ........ 8

# Geirfa

**ADY**

Anghenion Dysgu Ychwanegol

**DEDDF ALNET**

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

**DDdY**

Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol

**CADY**

Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol

**CDU**

Cynllun Datblygu Unigol

**AAD**

Anawsterau a / neu anableddau dysgu

**NAEL**

Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol

**CYBLD**

Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion

**RhAG**

Rhieni dros Addysg Gymraeg

**AAA**

Anghenion Addysgol Arbennig

# 1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd y system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) dan Ddeddf ALNET a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol 2021 (Cod ADY). Mae adran 89 o Ddeddf ALNET yn nodi rhwymedigaeth statudol ar Weinidogion Cymru i adolygu ac adrodd ar ddigonolrwydd Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) cyfrwng Cymraeg ledled Cymru bob 5 mlynedd, gyda'r adroddiad cyntaf i'w gyhoeddi erbyn 1 Medi 2026, 5 mlynedd ers cychwyn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb o astudiaeth gwmpasu a gynhaliwyd i asesu'r sylfaen dystiolaeth gyfredol ar DDdY cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys unrhyw fylchau, a darparu argymhellion ar gyfer adolygiad 2026.

# 2. Cefndir

## Y system anghenion dysgu ychwanegol

Mae Deddf ALNET yn creu un system ddeddfwriaethol ar gyfer cefnogi dysgwyr rhwng 0 a 25 oed sydd ag ADY. Mae'n disodli'r system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) flaenorol ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol a'r system Anawsterau a/neu Anableddau Dysgu (AAD) ar gyfer dysgwyr mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16. Cyflwynwyd y system ADY yn raddol i bob dysgwr rhwng Medi 2021 ac Awst 2025. Yn yr adroddiad hwn, gellir defnyddio'r termau AAA neu AAD wrth gyfeirio at ddata neu lenyddiaeth a gyhoeddwyd cyn i'r system ADY gael ei gweithredu (yn llawn).

O dan y system ADY, os pennir bod gan ddysgwr ADY, mae ganddo hawl i gael cynllun statudol a elwir yn Gynllun Datblygu Unigol (CDU). Dogfen statudol sy'n disgrifio ADY y plentyn neu'r person ifanc, y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae'r plentyn neu'r person ifanc ei hangen, a gwybodaeth gysylltiedig o fath arall, yw'r CDU.

## DDdY cyfrwng Cymraeg o dan y system ADY

Un o egwyddorion hollbwysig y Cod ADY yw creu "system ddwyieithog, lle cymerir pob cam rhesymol i ddarparu Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol yn y Gymraeg i blant a phobl ifanc sydd angen cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda chyfle i gynyddu faint o Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg dros amser" (2021, tudalen 37). Mae adran 3.22 o'r Cod ADY (2021, tudalen 41) yn nodi: "Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i newid dyletswyddau yn y Ddeddf i sicrhau bod DDdY yn cael ei darparu yn Gymraeg, o fod yn ddyletswyddau i gymryd pob cam rhesymol i wneud hynny, i fod yn ddyletswyddau absoliwt (hynny yw, i sicrhau'r DDdY yn Gymraeg)". Mae'r gofynion statudol hyn i gyflwyno DDdY cyfrwng Cymraeg yn berthnasol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Mae adran 23.39 o'r Cod ADY yn rhoi dyletswydd ar y corff sy'n paratoi neu'n cynnal CDU yr unigolyn i ystyried a ddylid darparu DDdY trwy gyfrwng y Gymraeg. Os penderfynir y dylid darparu'r DDdY trwy gyfrwng y Gymraeg, rhaid nodi hynny yn y CDU, a rhaid i'r corff sy'n cynnal y CDU gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y ddarpariaeth honno ar gael (2021, tudalen 265).

Hefyd, mae yna fframwaith deddfwriaethol ehangach sydd wedi'i gynllunio i ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg, sy'n berthnasol i'r astudiaeth hon. Mae hyn yn cynnwys Mesur y Gymraeg (2011), sy'n rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg ac yn nodi'r egwyddor nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hefyd yn cynnwys Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, sy'n cyflwyno ystod o ddarpariaethau gyda'r nod o sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle i ddod yn siaradwyr Cymraeg annibynnol erbyn iddynt gwblhau addysg statudol.

# 3. Dulliau

Roedd yr astudiaeth hon yn seiliedig ar adolygiad o lenyddiaeth, dogfennau polisi a'r prif ffynonellau data; cyfweliadau gyda rhanddeiliaid; a thrafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru.

## Adolygiad o dystiolaeth

Nodwyd data ystadegol presennol sy'n ymwneud â DDdY cyfrwng Cymraeg drwy drafodaeth ag ystadegwyr Llywodraeth Cymru. Roedd yr adolygiad o lenyddiaeth a dogfennau yn ystyried cyhoeddiadau academaidd, dogfennau polisi, ac adroddiadau gan sefydliadau rhanddeiliaid.

Cynhaliwyd chwiliad llenyddiaeth gan wasanaeth llyfrgell Llywodraeth Cymru a dau o awduron yr adroddiad hwn, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd wedi'i gyfyngu i gyhoeddiadau rhwng 2001 a 2024. Fe wnaeth dau awdur yr adroddiad hwn sgrinio eitemau a gynhyrchwyd gan y chwiliad i nodi'r rhai sy'n canolbwyntio ar ADY/AAA mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, darpariaeth ddysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg, a/neu bolisi ADY/AAA ar gyfer dysgwyr 0 i 25 oed. Cafodd eitemau sy'n canolbwyntio ar gyd-destunau ieithyddol nad ydynt yn berthnasol, cyd-destunau nad ydynt yn addysgol, a phapurau a oedd wedi'u disodli gan fersiynau mwy newydd, eu heithrio.

Adolygwyd dogfennau polisi, fel y Cod ADY a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdod lleol, yn ogystal â chyhoeddiadau gan sefydliadau rhanddeiliaid, megis Estyn a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, hefyd.

## Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid

Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig ar-lein drwy Microsoft Teams gyda 12 o randdeiliaid allanol sy'n ymwneud ag addysg a chyflwyno DDdY yma yng Nghymru. Roedd y rhanddeiliaid hyn yn cynnwys Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADYau), cynrychiolwyr awdurdodau lleol, cynrychiolwyr byrddau iechyd lleol, a chynrychiolwyr Mudiad Meithrin, Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Cynhaliwyd dadansoddiad o themâu sy'n dod i'r amlwg yn y trawsgrifiadau a'r nodiadau o'r cyfweliadau.

# 4. Adolygiad o dystiolaeth

Mae'r adran hon yn crynhoi'r adolygiad o lenyddiaeth, dogfennau polisi a'r data sydd ar gael.

## Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

O dan adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol Cymru baratoi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae'r cynlluniau hyn yn nodi sut mae awdurdodau lleol yn bwriadu gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg a sut caiff y Gymraeg ei haddysgu dros y deg mlynedd nesaf. Mae canlyniad 6 yn y cynlluniau yn cyfeirio at gynyddu darpariaeth addysg Gymraeg i ddisgyblion ag ADY yn unol â'r dyletswyddau yn Neddf ALNET. Mae Tabl 1 yn cyflwyno dadansoddiad yr awduron o'r prif faterion a nodwyd gan Awdurdodau Lleol o dan Ganlyniad 6 eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, a nifer yr awdurdodau lleol a nododd y rhain fel problemau.

**Tabl 1: nifer yr awdurdodau lleol a gododd faterion penodol yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg**

| Mater | Nifer yr awdurdodau lleol (allan o 22) |
|---|---|
| Disgyblion ag ADY sy'n symud o ysgol cyfrwng Cymraeg i un cyfrwng Saesneg sy'n gorfod cael mynediad at gymorth cyfrwng Saesneg. | 10 |
| Canran lai o ddisgyblion ag ADY mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg o gymharu ag ysgolion cyfrwng Saesneg | 11 |
| Diffyg cyfleoedd gweithlu / datblygiad proffesiynol i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg | 13 |
| Adnoddau cyfrwng Cymraeg annigonol ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY | 7 |
| Pwysigrwydd cydweithio rhwng ysgolion neu awdurdodau lleol | 13 |
| Cynlluniau ar waith i adeiladu rhagor o ganolfannau adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY | 9 |

Fel y trafodir yng ngweddill yr adran hon, cafodd llawer o faterion/problemau a godwyd yng Nghynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol hefyd eu codi mewn ffynonellau tystiolaeth eraill a ystyriwyd gan yr adolygiad hwn.

## Digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg

Mae'r cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYBLD) yn gasgliad electronig o ddata ar lefel disgyblion ac ysgolion sy'n cael ei ddarparu ym mis Ionawr bob blwyddyn gan bob ysgol gynradd, ysgol ganol, ysgol uwchradd, ysgol feithrin ac ysgol arbennig a gynhelir. Yn ôl data o Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion 2023, mae canran y dysgwyr ag ADY ychydig yn is mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg nag yn gyffredinol yng Nghymru. Roedd 63,089 o ddysgwyr ag ADY ac AAA mewn ysgolion cynradd, canol ac uwchradd a gynhelir yng Nghymru, sy'n golygu 13.4% o'r holl ddisgyblion. O'r 108,866 o ddysgwyr yng Nghymru (23.0%) a addysgwyd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion dwyieithog (gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion Dwyieithog, ysgolion Dwy Ffrwd ac ysgolion Pontio), roedd 12,925 (11.8%) o ddysgwyr ag ADY neu AAA. Mae'r ysgolion cynradd yn cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion dwy ffrwd ac ysgolion pontio. Mae ysgolion canol ac uwchradd yn cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Am ragor o wybodaeth, darllenwch y nodiadau canllaw. DS: data CYBLD Ionawr 2023 oedd y diweddaraf ar gael ar yr adeg y cynhaliwyd yr adolygiad o dystiolaeth hwn. Mae data mwy diweddar wedi'u cyhoeddi ers hynny, sef (Ionawr 2024, Ionawr 2025, Ionawr 2026).

Ar hyn o bryd, nid yw CYBLD yn cynnwys data ar faint o ddysgwyr ag ADY sydd angen DDdY cyfrwng Cymraeg (yn ôl eu CDU) a/neu'n derbyn DDdY trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn nodedig, mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sawl awdurdod lleol yn dweud nad ydynt yn llwyr ddeall y DDdY cyfrwng Cymraeg sy'n ofynnol ac felly'n methu â phennu a ydynt yn diwallu'r angen hwnnw. Ar ben hynny, mae'r llenyddiaeth a adolygwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn awgrymu nad oes unrhyw ffordd gyson o ddiffinio ac asesu'r DDdY cyfrwng Cymraeg sy'n ofynnol ac i ba raddau y mae'n cael ei bodloni.

Mae'r llenyddiaeth yn cyfeirio'n helaeth at heriau o ran faint o DDdY cyfrwng Cymraeg sydd ar gael. Awgrymodd adroddiad ar y cyd gan Gomisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Plant Cymru (2023) nad yw anghenion dysgwyr ag ADY sy'n siarad Cymraeg yn cael eu diwallu'n ddigonol. Galwodd ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â heriau cenedlaethol, "diffyg

gweithlu cyfrwng Cymraeg, diffyg adnoddau ac asesiadau cyfrwng Cymraeg, a diffyg cysondeb mewn trefniadau cydweithio rhanbarthol." (2023, tudalen 1). Cafodd yr adroddiad ei lywio gan Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol a gwaith achos unigol y Comisiynydd ei hun.

Mae adroddiadau rhanddeiliaid yn tynnu sylw at anghysondeb mewn DDdY cyfrwng Cymraeg ledled Cymru. Disgrifiwyd y sefyllfa fel "loteri cod post" mewn adroddiad gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd (2024, tudalen 156). Hefyd, nododd adroddiad thematig Estyn ar y system ADY newydd amrywiad rhwng awdurdodau lleol y gwasanaethau arbenigol ADY sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, er ei fod yn llai o broblem ar y cyfan mewn ardaloedd lle mai Cymraeg yw'r brif iaith (2023, tudalen 44). Mae Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn adleisio hyn, gyda llawer o awdurdodau lleol sydd â chanrannau isel o siaradwyr Cymraeg yn nodi nad oes digon o allu i roi DDdY cyfrwng Cymraeg i bob disgybl sydd angen hynny.

Mae rhai adroddiadau rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at sgileffeithiau problemau gyda DDdY Cymraeg. Nododd adroddiad ar y cyd Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg (2023) fod rhai teuluoedd yn wynebu dewis rhwng cael y cymorth angenrheidiol sydd ei hangen ar ADY eu plentyn a chael addysg yn yr iaith o'u dewis. Cododd adroddiad gan bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd (2024) fater pellach o rai rhieni yn newid iaith eu cartref ar ôl newid iaith addysg eu plentyn, gan achosi cryn drallod. Mae Davies (2023) yn dadlau, os yw gofalwyr yn gweld DDdY cyfrwng Cymraeg yn annigonol neu'n anaddas, yna maent yn llai tebygol o ofyn amdani gan eu hawdurdod lleol, sydd yn ei dro yn effeithio ar ddehongliad yr awdurdod lleol o faint yr angen ac felly'r hyn a wneir i wella neu gynyddu'r ddarpariaeth.

Nododd adroddiad thematig Estyn (2023) fod awdurdodau lleol yn gweithio i wella eu darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg, megis drwy sefydlu dosbarthiadau arbenigol ar gyfer disgyblion ag ADY mewn ysgolion Cymraeg. Fodd bynnag, mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod plant a phobl ifanc sydd ag ADY mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg ar y cyfan o dan anfantais o'i gymharu â'r rhai mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg (Davies, 2023; Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth mewn Addysg (NAEL), 2023).

## Y Gweithlu

Mae ystod eang o weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr yn ymwneud â chyflwyno DDdY, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig ag ysgol benodol (e.e. CADYau, athrawon, cynorthwywyr addysgu) a'r rhai sy'n cefnogi sawl ysgol (e.e. seicolegwyr addysg, therapyddion iaith a lleferydd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill).

O ran data, mae'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion yn casglu gwybodaeth am athrawon a staff cymorth mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru, gan gynnwys eu sgiliau Cymraeg. Mae athrawon yn cofnodi eu sgiliau ieithyddol Cymraeg wedi'u mesur yn erbyn Fframwaith Cymhwysedd y Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysg. Yn ôl data'r Cyfrifiad Gweithlu Ysgolion ar gyfer mis Tachwedd 2023:

- Dywedodd 10,060 o athrawon (39.1%) fod ganddynt sgiliau Cymraeg ar lefel ganolradd neu uwch. Ar lefel awdurdod lleol, roedd y gyfran yn amrywio o 13.5% ym Mlaenau Gwent i 92.8% yng Ngwynedd
- Roedd 6,390 o athrawon (24.8%) yn addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu swydd bresennol, gyda 1,585 (6.2%) arall yn gallu addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ond heb wneud hynny yn eu swydd bresennol
- Dywedodd 6,355 o staff cymorth (21.1%) fod ganddynt sgiliau Cymraeg ar lefel ganolradd neu'n uwch o'i gymharu â 39.1% o athrawon
- Roedd cyfran y staff cymorth â sgiliau Cymraeg ar lefel ganolradd neu uwch yn amrywio o 3.0% ym Mlaenau Gwent i 89.3% yng Ngwynedd

Dylid nodi mai data Cyfrifiad Gweithlu Ysgolion Tachwedd 2023 oedd y diweddaraf oedd ar gael pan gynhaliwyd yr adolygiad o dystiolaeth hwn. Ers hynny, mae data mwy diweddar wedi'u cyhoeddi ar gyfer (mis Tachwedd 2024 a mis Tachwedd 2025).

Er bod y Cyfrifiad Gweithlu Ysgolion yn darparu data defnyddiol ar sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg yn gyffredinol, mae'n anodd deall maint y gweithlu sydd ar gael i gyflwyno DDdY trwy gyfrwng y Gymraeg yn llawn, oherwydd yr ystod o ymarferwyr sy'n ymwneud mewn ffyrdd gwahanol â chyflwyno'r DDdY. Mae'r Cod ADY (2021, tudalen 76) yn dweud "ni ddisgwylir i'r CADY gymryd rhan uniongyrchol yn y broses bob dydd o gefnogi dysgwyr

unigol ag ADY. Yr athro dosbarth sy'n gyfrifol am wneud hynny, ond mae staff cymorth dysgu yn gallu helpu'r CADY i sicrhau bod athrawon yn cael eu cefnogi a bod anghenion pob dysgwr yn cael eu diwallu". Dim ond gwybodaeth gyfyngedig sydd ar gael am staff nad ydynt yn staff ysgol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflwyno DDdY (e.e. Seicolegwyr Addysgol neu Therapyddion Iaith a Lleferydd). Mae rhywfaint o ddata ar gael am sgiliau Cymraeg ymarferwyr iechyd. Fodd bynnag, nid yw data ar staff sy'n cyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol yn benodol ar gael yn rhwydd, a byddai'n debygol o fod yn anodd eu caffael.

O gofio cyfyngiadau'r data presennol sydd ar gael ar y gweithlu i gyflwyno DDdY cyfrwng Cymraeg, mae'n anodd asesu pa mor ddigonol ydyw. Mae diffyg tystiolaeth ar sefyllfa'r gweithlu ar draws y grwpiau proffesiynol ac ymarferwyr gwahanol sy'n cyflwyno DDdY cyfrwng Cymraeg, ble mae'r bylchau, sut mae materion gweithlu yn cael eu rheoli, a chanlyniadau'r materion hyn i ysgolion, dysgwyr a'u teuluoedd. Fodd bynnag, roedd Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol yn tynnu sylw at broblemau'r gweithlu, gyda 13 o blith 22 awdurdod lleol yn dweud eu bod yn wynebu heriau o ran recriwtio staff Cymraeg sydd â'r sgiliau angenrheidiol, neu nad oedd y ddarpariaeth yn ddigonol oherwydd prinder staff. Mae adroddiadau rhanddeiliaid yn adleisio hyn, lle cafodd ei nodi fel un o'r prif heriau (Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Plant Cymru, 2023; NAEL, 2023).

Yn y sector addysg, mae Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg (Llywodraeth Cymru, 2022) yn nodi camau i ddatblygu'r gweithlu Cymraeg mewn ysgolion, gan gynnwys cynyddu nifer yr ymarferwyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n cefnogi dysgwyr. Yn y sector gofal iechyd, 'Mwy na geiriau' (2022) yw cynllun pum mlynedd Llywodraeth Cymru i gryfhau darpariaeth Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r cynllun yn cynnwys camau i gynyddu'r gallu i siarad Cymraeg o fewn y gweithlu presennol yn ogystal ag ymhlith recriwtiaid newydd. Mae'r naill gynllun a'r llall yn cydnabod bod cryfhau'r gweithlu Cymraeg yn ymrwymiad hirdymor.

## Ariannu

Mae cyllid yn thema ailadroddus yn y llenyddiaeth ar DDdY cyfrwng Cymraeg. Er bod cyllid yn gallu bod yn fater ehangach, mae'r llenyddiaeth yn awgrymu y gall gael goblygiadau

penodol ar gyfer DDdY cyfrwng Cymraeg (Fychan, 2023). Mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r cyllid sydd ar gael er mwyn helpu i ddiwygio ADY, gan gynnwys buddsoddiad mewn gwaith i wella'r DDdY cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae angen dealltwriaeth bellach o sut mae cyllid yn cael ei bennu a'i ddyrannu i gefnogi DDdY cyfrwng Cymraeg a sut mae'n cael ei ddefnyddio, yn ogystal â'r heriau a'r bylchau cyllido penodol mewn perthynas â DDdY cyfrwng Cymraeg.

## Cydweithio a rhannu gwybodaeth

Mae adran 7.22 o'r Cod ADY yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i nodi cyfleoedd i rannu adnoddau â'i gilydd. Hefyd, mae 13 o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol yn sôn am bwysigrwydd cydweithio i gefnogi'r gwaith o gyflwyno DDdY cyfrwng Cymraeg. Gallai enghreifftiau o gydweithio gynnwys rhannu adnoddau neu wybodaeth neu ganiatáu i staff weithio ar draws sawl bwrdd iechyd neu awdurdod lleol.

Mae Estyn (2023, tudalen 49) yn disgrifio'r broses gydweithredu a rhannu gwybodaeth a deunyddiau cyfredol rhwng asiantaethau yn "rhy amrywiol". Mae'r adroddiad yn nodi bod llawer o ysgolion ac awdurdodau lleol wedi cymryd camau sylweddol i wella DDdY cyfrwng Cymraeg, ond mae angen gwaith i rannu dysgu ac arferion da.

Roedd adroddiad gan Gomisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Plant Cymru (2023) yn tynnu sylw at ddiffyg trefniadau cydweithio ffurfiol rhwng awdurdodau lleol fel gwendid yn y rhan fwyaf o'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (2023, tudalen 3). Mae cydweithredu ar ffurf caniatáu i ddisgyblion gael DDdY cyfrwng Cymraeg mewn lleoliadau heblaw eu hysgol leol (e.e. caniatáu i ddisgyblion fynychu ysgol mewn awdurdod lleol cyfagos) wedi cael ei ddefnyddio fel ateb mewn rhai sefyllfaoedd lle nad oedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael yn yr ysgol leol. Ond mae hwn yn fater dadleuol. Mae Statham a Siencyn (2014, tudalen 134[1]) yn nodi y dylai plant sy'n siarad Cymraeg ag ADY dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, yn eu cymuned leol, fel y gallant gymryd rhan weithredol

---

[1] Statham, J a Siencyn, S. W. (2014). Bilingual Education in Wales. Yn F. Armstrong, M. Masterson, a P. Potts, Equality and Diversity in Education 1: Experiences of Learning, Teaching and Managing Schools, Cyfrol 1 (tudalennau 122-136). Rhydychen: Routledge.

yn eu cymuned leol, yn hytrach na gorfod teithio i awdurdodau lleol cyfagos i gael eu haddysg.

Mae angen cydweithio rhwng meysydd addysg ac iechyd hefyd, gydag adran 21.21 o'r Cod ADY yn nodi “bydd angen cymorth cyrff y GIG er mwyn diwallu anghenion rhai plant a phobl ifanc”. Prin yw'r llenyddiaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ar sut mae cydweithio rhwng addysg ac iechyd yn gweithio, a beth yw'r materion a'r ystyriaethau. Roedd gwaith ymchwil gan Mitchell (2018) yn archwilio sut mae plant byddar yn cael eu cefnogi mewn addysg yng Nghymru yn trafod pwysigrwydd cydweithio rhwng addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol hefyd. Dadleuodd Mitchell (2018) y dylai gwasanaethau gydweithio i fod yn rhan o gynllun strategol Cymru gyfan i wella'r ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.

Yn gryno, mae llenyddiaeth bresennol yn tynnu sylw at bwysigrwydd cydweithredu o fewn ac ar draws sectorau. Fodd bynnag, mae'r sail dystiolaeth i ddeall arferion cydweithredu cyfredol a'u goblygiadau ar gyfer DDdY cyfrwng Cymraeg, lle mae'r bylchau, a nodi modelau effeithiol o gydweithio, yn gyfyngedig.

## Adnoddau ac asesiadau diagnostig

Nid oes unrhyw restr wedi'i nodi o'r adnoddau na'r asesiadau diagnostig cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ar gyfer DDdY. Fodd bynnag, mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod diffyg adnoddau ADY ar gael yn Gymraeg (Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 2022; NAEL, 2023). Mae datblygiadau yn y maes hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Adnodd*,* sy'n cael ei ddisgrifio fel ‘siop un stop ar gyfer adnoddau i ymarferwyr addysg yng Nghymru'. Mae'n comisiynu adnoddau dwyieithog i gefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae Gwynedd a Môn wedi datblygu gwefan ADYaCH (ADY a Chynhwysiant) er mwyn gwella'r adnoddau ADY Cymraeg sydd ar gael. Mae ADYaCH yn cynnwys adnoddau ac asesiadau dwyieithog ar gyfer unigolion ag ADY. Mae'r wefan hefyd yn darparu adnoddau dwyieithog defnyddiol i rieni a gofalwyr dysgwyr ag ADY.

Mae'r llenyddiaeth yn tynnu sylw at ddiffyg asesiadau diagnostig Cymraeg ar gyfer ADY hefyd. Er enghraifft, mae ymchwil yn awgrymu nad oes digon o brofion diagnostig ar gael i nodi mathau penodol o anawsterau iaith ymhlith plant sy'n siarad Cymraeg (Thomas ac eraill, 2022). Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd mesurau i wella asesiadau diagnostig a

chymorth trwy gyfrwng y Gymraeg gyda rhai meysydd a bydd angen cynnal gwaith pellach ar hyn.

# 5. Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid

Mae'r adran hon yn crynhoi'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg ar ôl cyfweld â rhanddeiliaid.

## Amrywiad daearyddol

Fe wnaeth llawer o'r rhanddeiliaid dynnu sylw at yr amrywiad daearyddol yn nigonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg. Fe wnaeth un ddisgrifio'r ddarpariaeth ledled Cymru fel un "rhy dameidiog", yn amrywio o awdurdodau lleol sydd â DDdY ar gael yn llawn yn Gymraeg a Saesneg, i'r rhai heb ddim darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Roedd y rhai a holwyd yn dweud bod yr anghysondeb yn golygu bod yn rhaid i ofalwyr a dysgwyr mewn rhai ardaloedd deithio i awdurdodau lleol cyfagos i gael gafael ar gymorth. Codwyd pryderon am ymwybyddiaeth gyfyngedig rhai awdurdodau lleol o'r materion hyn a'u heffaith.

Dywedodd sawl un fod y DDdY cyfrwng Cymraeg ar ei chryfaf mewn ardaloedd sydd â chanran gymharol uchel o siaradwyr Cymraeg, yn enwedig Gwynedd a Môn. Y tu allan i'r ardaloedd hyn, dywedwyd bod y ddarpariaeth yn gyfyngedig oherwydd diffyg siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu. Hefyd, awgrymwyd y gallai byrddau iechyd lleol mwy o faint gynnig gwasanaethau cyfrwng Cymraeg gwell, waeth beth yw cyd-destun ieithyddol yr ardal. Awgrymodd atebwyr y gall digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg amrywio'n sylweddol o ysgol i ysgol yn yr un awdurdod lleol a rhwng ardaloedd gwahanol o fewn yr un bwrdd iechyd lleol hefyd.

Cyfeiriodd atebwyr at yr amrywiaeth ddaearyddol mewn mynediad at hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i ymarferwyr ADY hefyd. Dim ond mewn un lleoliad mae rhywfaint o'r hyfforddiant ar gael. Rhagdybiwyd y gallai hyn arwain at glystyrau o ymarferwyr sy'n gallu cyflwyno DDdY cyfrwng Cymraeg ger y canolfannau hyfforddi hynny, gan adael bylchau mewn mannau eraill a chyfrannu at ddarpariaeth anghyson. Fodd bynnag, byddai angen archwilio'r pwynt hwn ymhellach.

## Saesneg fel iaith ddiofyn DDdY

Roedd sawl un yn teimlo mai Saesneg yw'r iaith ddiofyn ar gyfer DDdY yng Nghymru, gyda'r Gymraeg yn aml yn cael ei thrin fel ôl-ystyriaeth o ran darparu gwasanaethau, datblygu adnoddau, a hyfforddiant. Soniodd CADYau yn arbennig am gael trafferth cael

DDdY cyfrwng Cymraeg gan y sector iechyd, gan ddweud mai Saesneg yw'r iaith ddiofyn, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae defnydd isel o'r Gymraeg yn y gymuned. Adroddwyd bod y sefyllfa hon yn creu rhwystrau i ddisgyblion sydd angen cymorth yn y Gymraeg, gydag un atebwr yn dweud bod dysgwyr o gartrefi Cymraeg o dan anfantais yn sgil hyn.

## Dysgwyr ag ADY mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg o dan anfantais

Roedd sawl atebwr yn dweud y gallai disgyblion ag ADY mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg wynebu anfanteision o'i gymharu â'u cyfoedion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Disgrifiodd un CADY opsiynau cyfyngedig ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag ADY yn ei ardal, yn enwedig lle mae angen cymorth arbenigol. Soniodd un o'r rhai a gafodd ei gyfweld am achos lle roedd yn rhaid i deulu ddewis rhwng addysg cyfrwng Cymraeg a chael mynediad at gymorth ADY priodol. Dywedodd CADY arall fod gan ysgolion cyfrwng Cymraeg lai o adnoddau DDdY yn aml nag ysgolion cyfrwng Saesneg. Hefyd, nododd cynrychiolydd awdurdod lleol ddiffyg cydraddoldeb rhwng DDdY cyfrwng Cymraeg a DDdY cyfrwng Saesneg yn eu hardal, gyda rhai disgyblion yn gorfod teithio i gael mynediad at ddarpariaeth. Cyfeiriodd rhanddeiliad arall at "anghyfiawnder sylfaenol", lle nad yw disgyblion ag ADY mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael yr un lefel o gefnogaeth â'u cyfoedion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, gyda theuluoedd yn wynebu mwy o rwystrau a heriau.

## Data i lywio DDdY cyfrwng Cymraeg

Roedd rhai o'r rhanddeiliaid yn poeni am brinder data ar nifer y disgyblion sydd angen DDdY cyfrwng Cymraeg a'r gweithlu sy'n gallu ei darparu, yn y sectorau addysg ac iechyd, ac yn teimlo bod angen eu gwella.

Nododd rhai o'r rhanddeiliaid fod awdurdodau lleol ac ysgolion yn aml yn dibynnu ar ddata ystadegol i asesu'r angen am DDdY cyfrwng Cymraeg. Os yw'r data'n hen neu'n anghywir, gallai'r asesiadau hyn fod yn anghywir. Roedd data ar ddisgyblion ag ADY mewn ysgolion dwyieithog yn cael eu hystyried yn arbennig o aneglur, a allai arwain at fethu adnabod y rhai sydd angen cymorth Cymraeg yn llawn.

Awgrymodd y rhai a holwyd fod gan fyrddau iechyd lleol ddiffyg dealltwriaeth o'r angen am DDdY cyfrwng Cymraeg. Efallai fod teuluoedd yn blaenoriaethu mynediad at wasanaethau dros iaith y ddarpariaeth, gan arwain at amcangyfrif rhy fach o'r angen. Fe awgrymon nhw fod nifer y ceisiadau am DDdY cyfrwng Cymraeg yn isel. Fodd bynnag, nid yw'r broses ar gyfer nodi a yw dysgwr angen DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector iechyd yn glir. Nododd un atebwr y gallai tanamcangyfrif y galw arwain at ei drin fel blaenoriaeth is.

## Gweithlu i gyflwyno DDdY cyfrwng Cymraeg

Y consenswს o'r cyfweliadau oedd bod y gweithlu presennol ar gyfer cyflwyno DDdY cyfrwng Cymraeg yn annigonol, gyda bylchau amlwg ymhlith cynorthwywyr addysgu, therapyddion iaith a lleferydd a seicolegwyr addysg yn arbennig. Nodwyd rhai gwelliannau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond bod heriau'n parhau.

Dywedodd un o'r rhanddeiliaid mai ychydig iawn o staff Cymraeg, os o gwbl, sydd gan lawer o fyrddau iechyd lleol sy'n darparu DDdY. Nodwyd nad yw pawb yn teimlo'n hyderus wrth ddarparu gwasanaethau clinigol yn yr iaith, ac y gallai hyn fod â goblygiadau i ansawdd clinigol. Disgrifiodd un ymatebwr fynediad at ymarferwyr iechyd Cymraeg fel mater o "siawns".

Soniodd CADYau a chynrychiolwyr awdurdodau lleol am anawsterau wrth recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, yn enwedig y rhai sydd â'r sgiliau i gefnogi dysgwyr gydag ADY. Pwysleisiodd eraill yr angen am gynllunio rhagweithiol, hirdymor er mwyn hyfforddi digon o ymarferwyr Cymraeg eu hiaith ar draws proffesiynau.

## Agweddau tuag at yr iaith a dealltwriaeth o bwysigrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg

Roedd rhai o'r atebwyr yn teimlo bod rhai o'r heriau a welwyd yn deillio o agweddau tuag at y Gymraeg. Awgrymwyd nad yw llawer o bobl sy'n gweithio yn y sector ADY, gan gynnwys y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, yn blaenoriaethu'r Gymraeg, nac yn deall yn llawn yr angen am DDdY cyfrwng Cymraeg a'i phwysigrwydd. Roedd cynyddu ymwybyddiaeth o'i phwysigrwydd yn cael ei ystyried yn hanfodol ar draws y sector. Dadleuodd un ymatebwr

nad yw'r Gymraeg yn cael digon o flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru neu rai awdurdodau lleol, gan gyfrannu at y diffyg DDdY cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd.

Roedd rhai'n pryderu bod ymarferwyr a/neu ysgolion yn dal i annog rhai teuluoedd i symud eu plant i leoliadau cyfrwng Saesneg neu i roi'r gorau i siarad Cymraeg gartref. Nododd CADY pa mor ofidus y gall hyn fod i ddisgyblion.

Er bod un o'r rhai a holwyd yn teimlo nad oedd llawer o gynnydd wedi bod, soniodd eraill am welliannau diweddar, gydag un yn disgrifio "newid gwirioneddol" ym mhwysigrwydd canfyddedig DDdY cyfrwng Cymraeg a mwy o ymrwymiad gan awdurdodau lleol. O safbwynt iechyd, nodwyd bod mwy a mwy o weithwyr iechyd proffesiynol hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cynnig gwasanaethau therapi iaith a lleferydd yn iaith gyntaf plentyn.

## Cyllid

Roedd gan randdeiliaid farn gymysg ar gyllid. Roedd un CADY yn croesawu'r ffaith bod mwy o gyllid gan Lywodraeth Cymru wedi helpu eu hysgol i sefydlu darpariaeth newydd, tra bod eraill yn tynnu sylw at gyllid a roddwyd i brifysgol yng Nghymru i ddatblygu strategaeth recriwtio er mwyn denu siaradwyr Cymraeg i'r proffesiwn therapi iaith a lleferydd.

Fodd bynnag, dywedodd rhai CADYau fod problem fwy cyffredinol o ddiffyg eglurder ynghylch cyllideb ADY, sy'n golygu ei bod hi'n anodd cynllunio. Hefyd, nododd cynrychiolydd un awdurdod lleol yr heriau ariannu a'r ffaith bod dealltwriaeth gyfyngedig o ddyraniad cyllid ADY yn ei gwneud hi'n anodd cynllunio cymorth i ddisgyblion ADY sy'n siarad Cymraeg. Nododd rhanddeiliaid fod yn rhaid i ysgolion gynllunio cyllidebau yn ofalus oherwydd cyfyngiadau cyllido ac ystyried y cydbwysedd rhwng yr hyn y byddent yn ei ddarparu yn ddelfrydol a'r hyn sy'n fforddiadwy. Nododd cynrychiolydd un awdurdod lleol fod niferoedd isel o ddisgyblion ADY sy'n siarad Cymraeg, yn golygu nad yw sefydlu canolfan adnoddau bwrpasol ar gyfer DDdY Gymraeg yn ymarferol yn economaidd. Cyfeiriodd un arall o'r rhai a holwyd at yr her ariannol o gyflwyno DDdY cyfrwng Cymraeg arbenigol mewn ardaloedd lle mae canran y dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn isel.

Nododd rhanddeiliaid rai materion cyllideb a chyllid sy'n effeithio ar DDdY cyfrwng Cymraeg. Dywedodd rhai CADYau Cymraeg eu hiaith sy'n cefnogi dysgwyr ag ADY eu bod

nhw'n gorfod creu eu deunyddiau eu hunain yn aml, sy'n gofyn am staff mwy cymwysedig ac felly'n cynyddu costau cyflog. Hefyd, nododd rhanddeiliaid fod treuliau ychwanegol ar gyfer hyfforddi a chadw staff sy'n siarad Cymraeg i gefnogi dysgwyr ag ADY, o gofio bod prinder siaradwyr Cymraeg â'r sgiliau angenrheidiol. Awgrymodd un CADY y dylai lleoliadau cyfrwng Cymraeg dderbyn cyllidebau uwch i adlewyrchu'r anghenion hyn.

## Digonolrwydd adnoddau, asesiadau a hyfforddiant

Dywedodd y rhanddeiliaid a holwyd fod diffyg adnoddau, asesiadau a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg cyfredol ac addas, gan alw ar Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu gwelliannau yn y maes hwn. Awgrymodd cynrychiolydd un awdurdod lleol fod diffyg cydraddoldeb rhwng adnoddau ADY Cymraeg a Saesneg.

Fel y nodwyd yn yr adran 'Cyllid', tynnodd sawl un sylw at y ffaith fod prinder adnoddau a hyfforddiant ADY Cymraeg yn golygu bod staff yn gorfod cyfieithu neu greu eu hadnoddau eu hunain. Disgrifiodd CADYau a chynrychiolwyr awdurdodau lleol fwy o lwyth gwaith a phwysau amser o ganlyniad, gydag un atebwr yn disgrifio'r sefyllfa fel un "anghynaliadwy". Roedd yr angen i gyfieithu adnoddau yn creu goblygiadau o ran ansawdd hefyd, yn enwedig ar gyfer asesiadau diagnostig lle mae dilysu a safoni yn bwysig, a hefyd lle nad yw adnoddau Cymraeg yn cael eu diweddaru mor aml â fersiynau Saesneg. Nododd rhai atebwyr fod adnoddau Cymraeg presennol yn arbennig o anaddas i ddysgwyr ysgolion uwchradd, gyda deunyddiau 'plentynnaidd' yn arwain at ymddieithrio.

## Cydweithredu

Trafodwyd cydweithio i gefnogi DDdY cyfrwng Cymraeg ar draws ysgolion, rhwng awdurdodau lleol a rhwng y meysydd addysg ac iechyd. Roedd hyn yn cynnwys rhannu adnoddau a gwybodaeth, rhannu staff, a dysgwyr yn cael mynediad at ddarpariaeth mewn ysgolion neu awdurdodau lleol cyfagos.

Dywedodd CADYau a holwyd fod cydweithio cryf rhwng ysgolion o fewn a thu hwnt i'w clwstwr, ac roedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol hefyd yn canmol y cydweithio rhwng ysgolion. Roedd CADYau yn gwerthfawrogi cyfleoedd i drafod heriau ac adnoddau cyffredin, yn enwedig gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill yn eu hardal. Er enghraifft, dywedodd un CADY fod ysgolion yn ei glwstwr yn aml yn trafod ac yn rhannu adnoddau

roeddent yn eu datblygu, er mwyn osgoi ailadrodd. Roedd rhywfaint o amrywiad, fodd bynnag, gyda rhai CADYau yn dweud bod amser yn brin i gydweithio oherwydd gofynion gwaith eraill, ac un arall yn teimlo'n "lwcus" i gael yr amser.

Roedd rhai CADYau yn teimlo y gellid gwella cydweithio rhwng awdurdodau lleol. Dywedodd un o'r rhai a holwyd fod awdurdod lleol cyfagos yn gyndyn o rannu adnoddau, ond nid oedd y rhesymau'n glir.

Roedd cydweithio rhwng iechyd ac addysg yn cael ei ystyried yn heriol gan lawer yn y sector addysg, gyda galwadau am welliant. Ar y llaw arall, roedd ymatebwr o'r sector iechyd o'r farn bod cytundebau lefel gwasanaeth presennol gydag awdurdodau lleol yn effeithiol o ran galluogi DDdY cyfrwng Cymraeg. Fe wnaeth y rhai a holwyd o'r sector iechyd awgrymu creu platfform rhannu gwybodaeth i gryfhau dulliau cyfathrebu a chydweithio.

Nodwyd perthnasedd cydweithio o fewn y sector gofal iechyd hefyd, gyda staff o ardaloedd eraill weithiau'n camu i'r adwy i ddarparu cymorth Cymraeg pan nad oedd timau lleol yn siarad Cymraeg. Er nad yw'n ddelfrydol, ystyriwyd hyn fel ateb interim derbyniol.

Dywedodd eraill y gallai gwella cydweithio ar lefel genedlaethol a rhanbarthol helpu i fynd i'r afael ag amrywiad daearyddol mewn DDdY cyfrwng Cymraeg. Er eu bod yn cytuno bod cydlynu cenedlaethol yn bwysig, awgrymodd un o'r rhai a holwyd y dylid dechrau gyda chydweithio rhanbarthol gan fod hynny'n gynt ac yn fwy dichonadwy.

## Y sector iechyd a DDdY cyfrwng Cymraeg

Cododd y rhanddeiliaid a holwyd faterion ynglŷn â DDdY cyfrwng Cymraeg gan y sector iechyd, gyda safbwyntiau gwahanol rhwng gweithwyr proffesiynol addysg ac iechyd. Er bod rhai a holwyd o ysgolion, awdurdodau lleol, a'r trydydd sector yn dweud eu bod nhw'n cael trafferth cael gafael ar gymorth cyfrwng Cymraeg gan y sector iechyd, roedd un ymatebwr o'r sector iechyd o'r farn y gallai'r rhan fwyaf o fyrddau iechyd lleol ateb y galw presennol, er mae'n bosibl y gallent gael trafferth pe bai cynnydd yn y galw.

Dywedodd rhai CADYau fod diffyg staff iechyd Cymraeg ar gael i roi DDdY cyfrwng Cymraeg, gydag un yn dweud ei bod yn "amhosibl" siarad Cymraeg ag ymarferwyr yn y bwrdd iechyd lleol. O ganlyniad, mae ysgolion yn aml yn anfon atgyfeiriadau yn Saesneg er mwyn osgoi oedi. Tynnodd un CADY sylw at "oedi enfawr" pan gyflwynwyd CDUau yn

Gymraeg, gan achosi i blant aros yn hirach am wasanaethau. Dywedodd CADYau fod rhai rhieni yn blaenoriaethu cymorth amserol dros gael y cymorth hwnnw yn Gymraeg, gydag un yn nodi “goddefgarwch” cyffredinol i wasanaethau iechyd Saesneg er mwyn osgoi oedi. Rhybuddiodd un CADY y gallai oedi wrth dderbyn diagnosis drwy gyfrwng y Gymraeg gael canlyniadau difrifol i ddisgyblion.

Pwysleisiodd atebwyr yn gyson fod heriau wrth gael mynediad at gymorth cyfrwng Cymraeg gan y sector iechyd yn systemig eu natur, wrth ganmol ymdrechion ymarferwyr unigol.

## Canmol staff ADY

Er gwaetha’r materion systemig a godwyd, roedd y rhai a holwyd yn canmol ymdrechion staff ADY ar draws sectorau yn gyson, gan nodi eu bod yn “gwneud eu gorau glas” gyda’r adnoddau sydd ar gael. Roedd rheoli diwygiadau ADY ochr yn ochr â newidiadau i’r cwricwlwm ac adferiad ar ôl y pandemig yn cael ei ystyried yn her fawr. Disgrifiwyd ymarferwyr yn aml fel rhai sy’n mynd yr ail filltir, yn gweithio oriau ychwanegol ac yn cyflawni tasgau y tu allan i’w rolau i gefnogi disgyblion. Un enghraifft oedd therapydd iaith a lleferydd sy’n siarad Cymraeg a wnaeth recordio synau Cymraeg yn ei amser sbâr er mwyn cynorthwyo cydweithiwr di-Gymraeg a oedd yn cefnogi plentyn dwyieithog.

# 6. Casgliadau

Mae'r dystiolaeth a ystyriwyd ar gyfer yr adolygiad cwmpasu hwn yn dangos bod sawl her o ran sicrhau bod DDdY cyfrwng Cymraeg ar gael. Mae'r heriau hyn yn cynnwys amrywiaeth ddaearyddol yn argaeledd DDdY cyfrwng Cymraeg ledled Cymru; diffyg adnoddau, asesiadau a hyfforddiant; a dim digon o weithlu ar gael i gyflwyno'r DDdY cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, roedd yr adolygiad hefyd yn nodi sawl bwlch yn y sail dystiolaeth i ddeall a oes digon o DDdY cyfrwng Cymraeg. Er enghraifft, thema a ddaeth i'r amlwg yn yr adolygiad llenyddiaeth a chyfweliadau â rhanddeiliaid oedd y diffyg data sydd ar gael ynglŷn â'r angen am DDdY cyfrwng Cymraeg a'r gweithlu sydd ar gael i'w chyflwyno. Yn arbennig, mae diffyg data o'r fath yn cyflwyno heriau pwysig ar gyfer asesu digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg. Ar ben hynny, er bod y dystiolaeth bresennol yn dangos pwysigrwydd cydweithio wrth helpu i gyflwyno DDdY cyfrwng Cymraeg, cyfyngedig yw'r sail dystiolaeth ynghylch arferion cydweithio cyfredol a'u goblygiadau i DDdY cyfrwng Cymraeg. Mae'r canfyddiadau hefyd yn tynnu sylw at yr angen am ddealltwriaeth bellach o ran sut mae cyllid yn cael ei ddyrannu i gefnogi DDdY cyfrwng Cymraeg, sut mae'n cael ei ddefnyddio, a'r heriau a'r bylchau cyllido penodol mewn perthynas â'r ddarpariaeth honno.

Mae'n bwysig nodi bod digonolrwydd yn rhywbeth cymhleth i'w fesur, ac mae'n aml yn cael ei wneud fesul achos. Hefyd, mae angen rhagor o waith i ddeall yr angen am DDdY cyfrwng Cymraeg a'r prosesau sydd ar waith i nodi'r angen hwn, er mwyn deall yn llawn ddigonolrwydd y ddarpariaeth.

# 7. Argymhellion

Ar sail yr astudiaeth gwmpasu hon, rydym yn cynnig y rhestr ganlynol o argymhellion ar gyfer adolygiad pum mlynedd 2026 o ddigonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg:

Argymhelliad 1: dylai cwmpas yr adolygiad gynnwys plant a phobl ifanc o bob oed o dan y Ddeddf ALNET mewn amrywiaeth o leoliadau addysgol er mwyn sicrhau bod ystod mor amrywiol o brofiadau â phosibl wedi'u cynnwys. Daw'r mwyafrif o'r dystiolaeth sydd ar gael o ysgolion a gynhelir ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol, ac mae bwlch amlwg yn y dystiolaeth o leoliadau gwahanol i'r rhain.

Argymhelliad 2: mae hefyd yn bwysig bod yr adolygiad yn cynnwys lleisiau gofalwyr a theuluoedd a dysgwyr eu hunain, gan fod hyn yn rhywbeth sy'n amlwg o absennol o'r llenyddiaeth ar hyn o bryd.

Argymhelliad 3: dylai'r sampl gynnwys ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag ADY o ddydd i ddydd, ynghyd â chydweithwyr ar lefel reoli a strategol. Mae'r cyfweliadau yn tynnu sylw at ddatgysylltiad rhwng y ddealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol sydd gan gydweithwyr ar lefel reoli neu strategol a phrofiadau ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc bob dydd. Felly, mae'n bwysig bod yr adolygiad yn ystyried pob safbwynt a phrofiad.

Argymhelliad 4: dylid archwilio'r materion canlynol ymhellach:

- materion yn ymwneud â'r gweithlu, gan gynnwys recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg i yrfaoedd ADY perthnasol yn ogystal â chyfleoedd hyfforddi, a nodwyd yn aml fel maes blaenoriaeth yn y cyfweliadau
- yr wybodaeth ystadegol sydd ar gael am y gweithlu sydd ar gael i gyflwyno DDdY cyfrwng Cymraeg a sut i wella hyn
- y data ystadegol sydd ar gael ynglŷn â nifer y disgyblion sydd angen DDdY cyfrwng Cymraeg neu a fyddai'n elwa ar ddarpariaeth o'r fath.
- adnoddau ac asesiadau cyfrwng Cymraeg cyfredol sydd ar gael i ddisgyblion ag ADY
- y cyllid sydd ar gael ar gyfer DDdY cyfrwng Cymraeg a sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ar ddyrannu cyllid ar ei chyfer

- cydweithio, gan gynnwys rhwng y sectorau iechyd ac addysg